Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Western Vale Family Practice, Y Bont-faen

# Dyddiad y gweithgarwch: 15 Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 19 Awst 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-824-0



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Western Vale Family Practice, Y Bont-faen fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Western Vale Family Practice yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal y GIG 2015. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad ag un o'r Partneriaid Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis ar 15 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

1. Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?

2. Pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

3. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?

4. Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/wynebu risg) gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a threfnu apwyntiadau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- yr asesiad risg diogelwch tân
- asesiad risg iechyd a diogelwch
- asesiad risg clefyd y lleng filwyr
- asesiad risg ymweliadau â chartrefi
- Asesiad risg COVID-19 ar gyfer ymweliadau â chartrefi
- yr archwiliad gwastraff.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Gwelsom fod asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru er mwyn adlewyrchu gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod asesiad risg COVID-19 wedi'i gynnal, a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, taith y claf ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r sawl a oedd yn ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u hasesu er mwyn helpu a gwella trefniadau rheoli heintiau ar ddechrau pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- gweithdrefnau desg glir wedi'u rhoi ar waith
- arwyddion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu harddangos
- gorsafoedd cyfarpar diogelu personol (PPE) dynodedig
- blwch post ar gyfer slipiau presgripsiwn rheolaidd wedi cael ei osod
- sgriniau amddiffynnol wedi'u gosod yn y dderbynfa
- system ddi-gyffwrdd wedi'i gosod ar y drysau awtomatig wrth fynd i mewn i'r adeilad
- sgrin gyffwrdd i drefnu apwyntiadau wedi'i symud o'r ardal aros
- cyfarpar monitro pwysedd gwaed wedi'i symud o'r ardal aros

- cadeiriau ac eitemau diangen wedi'u symud o'r ardal aros.

Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym fod yr amgylchedd yn cael ei fonitro'n ddyddiol.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Mae'r cleifion yn derbyn ymgynghoriadau dros y ffôn, drwy fideo-gynadledda a thrwy e-bost. Roedd y cleifion hynny yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn trefnu apwyntiad ymlaen llaw cyn dod i'r practis. O ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd a wneir o linell ffôn y practis yn ystod y pandemig, gosodwyd llinellau ffôn ychwanegol. Prynodd y practis sawl trwydded gweithio o bell hefyd, er mwyn sicrhau y gallai'r staff a oedd yn gweithio gartref ddefnyddio system ffôn y practis a bod galwadau ffôn yn cael eu recordio at ddibenion ansawdd a hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi rhoi eConsult[1] ar waith am flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 fel ffordd o helpu rhai cleifion i gael cyngor, gwybodaeth neu apwyntiad drwy wefan y practis.

Er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o fynd a dod, dywedwyd wrthym fod y practis wedi datblygu gweithdrefn presgripsiwn rheolaidd o bell. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion i ffonio, e-bostio neu bostio eu presgripsiwn rheolaidd. Byddai'r practis hefyd yn anfon unrhyw bresgripsiynau brys drwy ffacs. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai rhai cleifion yn newid i gael swp-bresgripsiynau, lle y bo'n briodol, a bod y practis wedi annog cleifion i ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein (MHOL)[2] er mwyn archebu presgripsiynau rheolaidd. Dywedwyd wrthym for 33% o'ry cleifion bellach wedi cofrestru ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein. Roedd y practis hefyd yn diweddaru eu dewisiadau cleifion er mwyn sicrhau y gallai'r presgripsiynau gael eu casglu'n uniongyrchol o'r fferyllfeydd cymunedol.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi sefydlu canolbwynt nyrsio dynodedig er mwyn sicrhau y gallai clinigau clefyd cronig, imiwneiddio plant, clinig babanod, profion gwaed, pigiadau B12 a rheoli clwyfau barhau i gael eu cynnal mewn amgylchedd diogel a dynodedig.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael asesiad risg COVID-19 y GIG er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19 ac i dynnu sylw at unrhyw addasiadau yr oedd angen eu gwneud i'r arferion gweithio.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal a bod ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym fod proses wedi'i datblygu er mwyn sicrhau bod meddyg teulu pwrpasol ar gael i gartrefi gofal er mwyn iddynt gael adolygiad o bell bob wythnos, lle y byddai unrhyw bryderon a chynlluniau gofal nad oeddent yn rhai brys yn cael eu trafod. Roedd y meddyg teulu enwebedig yn ymweld â'r

[1] Mae eConsult yn galluogi practisau meddygon teulu'r GIG i gynnig ymgyngoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi cleifion i gyflwyno eu symptomau neu geisiadau i'w meddyg teulu eu hunain yn electronig, ac mae'n cynnig gwybodaeth hunangymorth y GIG ddydd a nos, gan gyfeirio cleifion i wasanaethau, a holiadur symptomau.

[2] Prosiect cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella gofal cleifion yw Fy Iechyd Ar-lein. Mae'n galluogi cleifion i gyflawni rhai tasgau iechyd yn ddiogel ar y we

cartrefi gofal i gynnal rowndiau ward fel y bo angen a lle y bo'n ddiogel gwneud hynny, yn dilyn asesiad risg.

Canmolodd y Partner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19
- yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau
- amserlenni glanhau
- polisi glanhau
- archwiliad glanhau
- Cynllun Parhad Busnes Glanhau ar gyfer COVID-19
- Asesiad Risg Glanhau ar gyfer COVID-19.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Nodwyd bod y tîm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy e-bost ac yn ystod cyfarfodydd tîm, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau ac archwiliad glanhau wedi cael eu cwblhau yn ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth bod y practis hefyd wedi datblygu asesiad risg glanhau dynodedig ar gyfer COVID-19 ac roedd cynllun parhad busnes glanhau ar waith. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis hefyd fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro yn rheolaidd.

Rhoddwyd gwybodaeth i ni am hyfforddiant rheoli heintiau a ddangosodd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gael.

Nodwyd bod pob aelod o'r staff anghlinigol yn y practis wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell arbennig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen, a bod system un ffordd ar waith.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel y soniwyd uchod, rhoddwyd copi o'r archwiliad rheoli heintiau diweddaraf a'r cynllun gweithredu dilynol i ni. Nodwyd gennym fod y practis wedi nodi bod pob un o'r ystafelloedd ymgynghori, 13 i gyd, yn cynnwys carpedi ar y lloriau. Gallem weld o'r cynllun gweithredu dilynol fod ystyriaeth wedi ei rhoi i osod lloriau newydd yn lle'r carpedi. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cost gosod lloriau newydd yn afresymol.

Ni ddylid defnyddio carpedi mewn ardaloedd clinigol lle y gellid rhagweld gollyngiadau. Os bwriedir defnyddio carpedi mewn ardaloedd clinigol, megis ystafelloedd ymgynghori, mae'n hanfodol bod asesiad risg lleol wedi'i ddogfennu yn cael ei gynnal, gan ddiffinio'r rhaglen cynnal a chadw ataliol a glanhau a gynlluniwyd ymlaen llaw yn glir.

Nodwyd gennym fod amserlen lanhau'r practis yn dangos bod carpedi'n cael eu hwfro bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod ar yr amserlen lanhau i nodi bod y carpedi wedi'u glanhau'n drylwyr. Cawsom wybod yn ystod y gwiriad ansawdd fod peiriant glanhau carpedi ar gael yn y practis yn ôl yr angen. Cawsom wybod hefyd fod yr holl garpedi wedi'u glanhau'n drylwyr ar ddechrau'r pandemig.

Rydym yn argymell bod y practis naill ai'n datblygu asesiad risg lleol, y mae'n rhaid iddo ddiffinio'r gwaith cynnal a chadw ataliol a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan sicrhau bod rhaglen lanhau yn cael ei sefydlu yn unol â'r canllawiau ar reoli heintiau yn yr amgylchedd adeiledig (WHBN 00-09)[3], neu y dylai'r practis ailystyried ymhellach osod lloriau newydd ym mhob ystafell ymgynghori.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- nodiadau o'r sesiynau datblygu ymarfer

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/170705/HBN_00-09_infection_control.pdf

- cofnod o'r cyfarfod tîm ymarfer a'r camau gweithredu
- pecyn cymorth parhad busnes ar gyfer COVID-19
- cynllun rheoli clinigau clefydau cronig ar gyfer COVID-19
- cynllun uwchgyfeirio ac isgyfeirio ar gyfer COVID-19

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd Rheolwr y Practis yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod gwaith cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i effaith COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi datblygu cynllun parhad busnes manwl ar gyfer COVID-19, ynghyd â chynllun rheoli clefydau cronig ar gyfer COVID-19 a chynllun uwchgyfeirio ac isgyfeirio. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion yn ystod y pandemig. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, canmolodd y Partner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis staff y practis yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Nodwyd bod cyfarfodydd clwstwr rheolaidd[4] yn cael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal, a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw ynghyd â chofnod manwl o'r camau gweithredu.

Dywedwyd wrthym nad oes gan y practis unrhyw broblemau o ran defnyddio gwasanaethau y tu allan i oriau, a bod ganddo ryngwyneb a dulliau rhannu gwybodaeth da ar waith, yn benodol mewn perthynas â gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Dywedwyd wrthym fod defnyddio gwasanaethau gofal eilaidd wedi gwella drwy ddefnyddio'r Ap Consultant Connect [5] lle gellir osgoi gwneud atgyfeiriadau o ganlyniad i gael cyngor arbenigol yr un diwrnod drwy'r ap. Fodd bynnag, cawsom wybod bod amseroedd aros mewn gofal eilaidd wedi cynyddu yn ystod y pandemig sydd wedi rhoi mwy o bwysau ar y practis.

[4] Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

[5] Mae ap Consultant Connect yn ei gwneud hi'n syml i glinigwyr gyfathrebu. P'un a oes angen cyngor ac arweiniad arnoch oddi wrth feddyg ymgynghorol lleol neu gael gafael ar bractis yn hawdd, mae'r ap yn eich cysylltu mewn ffordd hawdd a chyflym.

Dywedwyd wrthym hefyd fod defnyddio rhai gwasanaethau, megis iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) wedi bod yn heriol. Dywedwyd wrthym hefyd bod disgwyl i'r practis gynnal profion gwaed ac arsylwadau rheolaidd cyn unrhyw glinigau gofal eilaidd. Byddai'r profion gwaed a'r arsylwadau rheolaidd hyn yn cael eu cynnal gan staff yn y gwasanaethau gofal eilaidd wrth weld y claf wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym hefyd fod adolygiadau cleifion nad ydynt rhai gan feddygon teulu naill ai wedi cael eu canslo neu eu gohirio, sy'n rhoi mwy o bwysau wedyn ar y practis, oherwydd bydd y cleifion yn cysylltu am gyngor a sicrwydd. Mae AGIC wedi nodi'r pryderon a godwyd gan y practis yn ystod y gwiriad ansawdd a bydd yn rhan o'r wybodaeth a gasglwn wrth ystyried ein dull seiliedig ar risg o arolygu ac uwchgyfeirio.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Western Vale Family Practice, Y Bont-faen

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rydym yn argymell bod y practis naill ai'n datblygu asesiad risg lleol, y mae'n rhaid iddo ddiffinio'r gwaith cynnal a chadw ataliol a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan sicrhau bod rhaglen lanhau yn cael ei sefydlu yn unol â'r canllawiau ar reoli heintiau yn yr amgylchedd adeiledig (WHBN 00-09), neu y dylai'r practis ailystyried ymhellach osod lloriau newydd ym mhob ystafell ymgynghori. | Canllawiau, Rheoli heintiau yn yr amgylchedd adeiledig (WHBN 00-09), Adran 3.116 a 3.117 | Partneriaid Meddyg teulu i ystyried a chytuno ar asesiad risg a rhaglen lanhau yn unol â'r canllawiau, neu osod lloriau newydd yn yr ystafelloedd ymgynghori. | Rheolwr y Practis | 15 Hydref 2021 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Dr Dominic McGovern, Uwch-bartner

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021